

ASTUDIAETH ACHOS

Prosiect 4G + - Defnyddio Celloedd Bach

Cyngor Sir y Fflint

Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Queensferry, Sir y Fflint

Yr Her

Roedd y galw cynyddol am ddata symudol yn rhoi pwysau ar gapasiti'r rhwydwaith mewn rhannau o Sir y Fflint, yn enwedig ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a lleoliadau prysur eraill. Nid oedd mastiau symudol traddodiadol bob amser yn addas, gan arwain at gyfyngiadau cysylltedd a chapasiti i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr.

Yr Ateb

Gosodwyd pedair cell fach 4G a 5G ar golofnau goleuadau presennol sy'n eiddo i'r cyngor gan Ontix. Galluogwyd y defnydd drwy Gytundeb Mynediad Agored Cyngor Sir y Fflint, gyda chefnogaeth Prosiect Cysylltedd Digidol 4G+ Uchelgais Gogledd Cymru. Fe wnaeth defnyddio dodrefn stryd presennol leihau'r costau, lleihau'r effaith weledol a gwella cysylltedd symudol yn yr ardaloedd a dargedwyd.



Mae'r Cyngor yn croesawu'r buddsoddiad hwn gan Virgin Media O2 ac Ontix ac mae'n falch o fod wedi gweithio gyda nhw a gydag Uchelgais Gogledd Cymru i sicrhau bod asedau cyhoeddus ar gael i wella cysylltedd symudol, y cyntaf i'r Gogledd.

Y Cyngorydd Richard Jones, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Drawsnewid, Twf a Lle yng Nghyngor Sir y Fflint.

Canlyniadau Allweddol

- Defnydd cyntaf o gelloedd bach 4G a 5G yn y Gogledd.
- Pedwar safle celloedd bach wedi'u gosod.
- Cynyddu capasiti rhwydwaith symudol mewn lleoliadau lle fo'r galw yn uchel.
- Gwell cysylltedd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Queensferry.
- Wedi creu fframwaith ar gyfer darpariaeth gan weithredwyr symudol eraill yn y dyfodol.
- Gwell parodrwydd i ehangu 5G yn y dyfodol.



Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

ASTUDIAETH ACHOS

Prosiect 4G+ - Defnyddio Celloedd Bach

Cyngor Sir y Fflint

Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Queensferry, Sir y Fflint

Effaith

Mae'r prosiect yn helpu busnesau, trigolion ac ymwelwyr i elwa o gysylltedd symudol mwy dibynadwy. Mae gwell capasiti rhwydwaith yn cefnogi cynhyrchiant busnes, gwasanaethau digidol a thwf economaidd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Mae'r fenter hefyd yn dangos sut y gellir defnyddio asedau'r sector cyhoeddus i wella cysylltedd yn gost-effeithiol wrth leihau'r angen am seilwaith stryd ychwanegol. Disgwylir i lwyddiant hyn annog buddsoddiad pellach mewn cysylltedd symudol ledled y Gogledd.

“ Mae Glannau Dyfrdwy yn un o barciau diwydiannol mwyaf Ewrop ac mae'n ganolfan ffyniannus o ran diwydiant ac arloesi. Trwy roi hwb i gysylltedd hanfodol y rhwydwaith heddiw, mae Virgin Media O2 ac Ontix yn cefnogi twf diwydiannau'r DU yfory. ”

Richard Williams, Cyfarwyddwr
Caffael yn Ontix.

“

Mae ein cynllun Trawsnewid Symudol yn ymwneud â sicrhau bod ein cwsmeriaid yn derbyn profiad rhwydwaith dibynadwy ar yr adegau pwysicaf. Bydd y celloedd bach newydd hyn yn darparu capasiti ychwanegol i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy sy'n tyfu, gan roi hwb i'r busnesau sydd wedi'u lleoli yno ac i'r economi leol.

”

Steven Verigotta, Cyfarwyddwr
Cyflenwi Symudol yn Virgin Media O2.



Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL